Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llangelynnin

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a Chymreictod disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i gynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n ysgogi a meithrin brwdfrydedd disgyblion. Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar yr ardal leol ac yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau'n fuddiol. Mae staff yn cydweithio â rhieni a'r gymuned i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin, gan gynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddathlu eu Cymreictod.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio amgylcheddau dysgu pwrpasol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn datblygu ystod o fedrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sydd yn cynnig digon o her i ddisgyblion er mwyn eu hymestyn i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, nid yw'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan ymateb yn brydlon i'r hyn sydd angen ei wella.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025